# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4624A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi archwilio 20

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 21

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2024 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- archwiliad o gyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i gyfres eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal â hynny, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth y pandemig COVID-19. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru yn y ffordd orau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Roeddem yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailgydiwyd yn rhywfaint o waith archwilio ar y safle lle roedd yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig ei fyrhau bythefnos o'r flwyddyn flaenorol i 15 Gorffennaf 2024. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn parhau i fod yn gyson â'r heriau ar ôl y pandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'u cynhelir yn unol â safonau archwilio INTOSAI.[1]

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys

[1] Mae INTOSAI (Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

crynodeb o statws y gwaith sy'n mynd rhagddo o hyd, neu sydd heb ei gyflawni eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn y ffi archwilio a nodir yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 4 Chwefror 2025. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddiad ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio'r cyfrifon

12 Des i i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24[2] wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir iawn ac felly rwy'n cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad).

13 Fodd bynnag, amodais fy marn ar reoleidd-dra oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau refeniw. Ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24, gwariodd y Bwrdd Iechyd £42.961 miliwn dros y terfyn refeniw tair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi. Ni aeth y Bwrdd Iechyd dros ei derfyn adnoddau cyfalaf awdurdodedig ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24.

14 Ni chefais unrhyw faterion rheoleidd-dra eraill o natur andwyol berthnasol. Fodd bynnag, nodais nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2023-24 i 2025-26. Mae'r ddyletswydd ariannol hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd treigl, a chael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

15 Cyflwynais adroddiad ar bum argymhelliad archwilio i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Cafodd y rheolwyr yr holl argymhellion yn llawn ac maent wedi rhoi camau ar waith i'w gweithredu. Nodais hefyd fod rhai argymhellion archwilio blaenorol (h.y. cyn archwiliad 2023-24) yn gamau gweithredu parhaus ac

[2] Rwy'n archwilio ac yn ardystio Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd, a Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae 'cyfrifon' yn derm generig.

yn parhau i fod ar agor. Byddaf yn adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran yr holl gamau gweithredu newydd neu gyfredol fel rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2024-25.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

16 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- o ran gofal sylfaenol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â gwaith i wella cynllunio strategol, aeddfedrwydd clystyrau, ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae capasiti o fewn tîm gofal sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod dan bwysau, ac mae angen gwneud mwy o waith i sefydlu llinell sylfaen ariannol a chryfhau ei ddull o werthuso a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio. Er y ceir trosolwg a chraffu rhesymol ar ofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae angen cryfhau'r broses o adrodd ar gyflawni cynlluniau, profiad cleifion, a pherfformiad a chanlyniadau gofal sylfaenol.
- er bod nifer y cleifion sy'n profi oedi cyn eu rhyddhau yn parhau i fod yn bryder, bu gwelliannau nodedig o ran trosglwyddo ambiwlansys a pherfformiad amseroedd aros adrannau achosion brys yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae llif cleifion mewn ysbytai yn effeithio'n negyddol ar lwybrau gofal eraill, a bydd angen i bartneriaid rhanbarthol gynnal eu hymrwymiad ar y cyd i gael y gwelliannau sydd eu hangen.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd, gan gynnwys sicrhau bod y polisi rhyddhau yn gyfredol a bod hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn arwain at ddealltwriaeth well o dirwedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol.
- er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged diffyg y cytunwyd arno ar gyfer 2023-24, mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull cyffredinol o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd, a sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaethau yn cyd-fynd â chynlluniau ehangach i ddychwelyd y sefydliad i gynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol.
- mae trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu'n effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i roi ei strategaeth hirdymor ar waith, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn cefnogi'r gwaith o'i chyflawni. Er bod gan y Bwrdd Iechyd uchelgeisiau i gyflawni cynaliadwyedd ariannol, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol.

17 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio'r cyfrifon

18 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

19 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24, a nodir y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â nhw yn **Arddangosyn 4, Atodiad 3**.

20 Mae fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn cael eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

21 Des i i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir iawn (yn wir ac yn deg), a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad).

22 Cyflwynais adroddiad ar bum argymhelliad archwilio, i reolwyr ac i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd y rheolwyr yr holl argymhellion a chytuno'n ffurfiol ar gamau rheoli a dyddiadau gweithredu. Adroddais hefyd ar gynnydd y rheolwyr gydag unrhyw argymhellion o'm harchwiliadau blaenorol, nad ydynt wedi'u gweithredu'n llawn eto. Fel rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2024-25, byddaf yn adolygu cynnydd y rheolwyr gyda'm holl argymhellion byw.

23 Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (Aelodau o'r Bwrdd), i'w hystyried cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy nhîm archwilio adroddiad ar y materion hyn ar 11 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion yr adroddwyd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Roedd un camddatganiad nas cywirwyd. Nodais ddau adeilad a oedd wedi'u dymchwel ond heb eu tynnu oddi ar gofrestr asedau sefydlog, cyfriflyfr ariannol a chyfrifon y Bwrdd Iechyd. Er bod yr adeiladau wedi'u dibrisio'n llawn, ac nad oedd ganddynt werth net ar bapur, roedd y gofrestr asedau a'r cyfrifon yn dal i |

| Mater | Sylwadau’r Archwilydd |
| --- | --- |
| | gofnodi'n anghywir eu cost gros a dibrisiant cronedig o £1.091 miliwn.<br>Yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed, roeddem yn fodlon nad oedd risg sylweddol ehangach i gyfrifon 2023-24. |
| Camddatganiadau wedi’u cywiro | Adroddais am y chwe chamddatganiad mwyaf arwyddocaol a gwiriwyd. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â dosbarthiadau a datgeliadau cyfrifyddu. Roedd un o’r materion yn ymwneud â dyfarniad cyflog a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl i’r Bwrdd Iechyd gyflwyno’r cyfrifon drafft, ac felly ni allai fod yn hysbys pan baratowyd y cyfrifon gan reolwyr. |
| Materion pwysig eraill | Adroddais am bum argymhelliad ar gyfer gwella, gydag ymatebion ffurfiol y rheolwyr. Derbyniodd y rheolwyr yr holl argymhellion yn ffurfiol. Ar 3 Medi 2024, ystyriodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd yr argymhellion ac ymatebion y rheolwyr. |

24 Cynhaliais hefyd adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod y wybodaeth am atgyfnerthu cyfatebol yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2024 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

25 Mae fy archwiliad ar wahân o adroddiad blynyddol a chyfrifon Elusen y Bwrdd Iechyd wedi’i gwblhau, a chyflwynais adroddiad ar fy nghanfyddiadau i’r Ymddiriedolwyr ar 23 Ionawr 2025. Ardystiais yr adroddiad blynyddol a chyfrifon ar 26 Ionawr. Dyddiad cau blynyddol y Comisiwn Elusennau yw 31 Ionawr.

## Rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol

26 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol ag awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn incwm ac ysgwyddo gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau a'r profion hyn nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

27 Os nad yw Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, mae ei wariant refeniw a/neu gyfalaf yn fwy na'i bwerau i wario, ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn rheoleidd-dra.

28 Amodais fy marn ar reoleidd-dra, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau refeniw. Ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24, gwariodd y Bwrdd Iechyd £42.961 miliwn dros y terfyn refeniw tair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi.

29 Ni aeth y Bwrdd Iechyd dros ei derfyn adnoddau cyfalaf awdurdodedig ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2020-21-22 a 2022-23. Ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24, gwariodd y Bwrdd Iechyd £201,000 islaw'r terfyn cyfalaf tair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi.

30 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad sylweddol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'm barn, lle rwyf am dynnu sylw at fater(ion). Oherwydd y mater rheoleidd-dra a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi manylion ffeithiol fy amodi fy marn ar reoleidd-dra.

31 Amlygodd fy adroddiad sylweddol fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2023-24 i 2025-26. Mae'r ddyletswydd ariannol hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd treigl a chael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd yn sylfaen hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o safon.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

32 Mae gennyf ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion ar gyfer 2018 ar ofal sylfaenol, yn ogystal ag i ba raddau y mae capasiti a gallu priodol i gyflawni blaenoriaethau yn ogystal ag i ba raddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol, i gefnogi llif cleifion amserol allan o'r ysbyty ar draws rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg;
- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion ar gyfer 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbed costau'r Bwrdd Iechyd; a
- chynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

33 Mae fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Adolygiad dilynol o ofal sylfaenol

34 Archwiliodd fy adolygiad i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion blaenorol yn 2018 yn ymwneud â gofal sylfaenol. Asesais hefyd i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystyried materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol yn rheolaidd, ac a oes gan dîm gwasanaethau gofal sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a'r gallu priodol.

35 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â gwaith i wella cynllunio strategol gofal sylfaenol, aeddfedrwydd clystyrau, ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae capasiti Tîm Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod dan bwysau, ac mae angen gwneud mwy o waith i sefydlu llinell sylfaen ariannol a chryfhau ei ddull o werthuso a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio. Er y ceir trosolwg a chraffu rhesymol ar ofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae angen cryfhau'r broses o adrodd ar gyflawni cynlluniau, profiad cleifion, a pherfformiad a chanlyniadau gofal sylfaenol.

36 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael ag argymhellion yn ymwneud â chynllunio strategol gofal sylfaenol, ac mae hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau aeddfedrwydd clystyrau a chefnogi hyfforddiant a datblygiad arweinwyr clystyrau. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi symud rhai adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, mae'r cynnydd wedi parhau'n araf. Yn ogystal, nid yw eto wedi sefydlu llinell sylfaen ariannol i gefnogi'r newid hwn mewn adnoddau a galluogi monitro. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio o fewn clystyrau gofal sylfaenol.

37 Adlewyrchir gofal sylfaenol yn strategaethau a chynlluniau allweddol y Bwrdd Iechyd. Er y ceir trosolwg a chraffu rhesymol ar ofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae cyfleoedd i gryfhau'r broses o adrodd ynghylch cyflawni cynlluniau gofal sylfaenol, profiad cleifion yn cael mynediad i wasanaethau gofal sylfaenol, a pherfformiad a chanlyniadau gofal sylfaenol.

38 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu nifer y rolau o fewn ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog, mae capasiti dan bwysau o hyd oherwydd llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er bod trefniadau da ar waith i gefnogi datblygiad staff o fewn y tîm, mae angen cryfhau ei drefniadau cynllunio olyniaeth.

## Gofal brys ac mewn argyfwng

39 Roedd fy ngwaith yn archwilio gwahanol agweddau ar y system gofal brys a gofal brys a oedd yn canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty, cynnydd yn erbyn fy argymhellion cynllunio rhyddhau blaenorol, a threfniadau ar gyfer rheoli'r galw. Mae disgwyl i'm gwaith ar drefniadau ar gyfer rheoli'r galw gael ei adrodd ym mis Chwefror 2025.

## Llif cleifion allan o’r ysbyty

40 Archwiliodd fy adolygiad rhanbarthol a oes gan y Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid gwasanaethau cymdeithasol drefniadau effeithiol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau’n brydlon o’r ysbyty. Roedd yn canolbwyntio ar faint yr her, a'r ffactorau sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty. Roedd fy ngwaith hefyd yn ystyried y camau sy’n cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid statudol, gan gynnwys drwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a beth arall y gellir ei wneud i leihau rhai o’r heriau y mae’r system iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

41 Canfu fy ngwaith y bu gwelliannau nodedig o ran trosglwyddo ambiwlansys a pherfformiad amseroedd aros adrannau achosion brys yn y rhanbarth, er bod nifer y cleifion sy'n profi oedi cyn eu rhyddhau yn parhau i beri pryder. Fodd bynnag, mae llif cleifion mewn ysbytai yn effeithio’n negyddol ar lwybrau gofal eraill, a bydd angen i bartneriaid rhanbarthol gynnal eu hymrwymiad ar y cyd i gael y gwelliannau sydd eu hangen.

42 Yn unol â thueddiadau ledled Cymru, mae nifer y cleifion sy’n cael eu rhyddhau o’r ysbyty yn rhanbarth Caerdydd a’r Fro wedi cynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, ar gyfartaledd roedd 194 o gleifion a oedd yn ddigon iach yn feddygol bob mis lle roedd oedi cyn eu rhyddhau, a chwblhau asesiadau gofal cymdeithasol a dyrannu gweithiwr cymdeithasol oedd prif achosion yr oedi. Er bod y sefyllfa hon yn cymharu’n ffafriol â byrddau iechyd eraill yng Nghymru, mae’n parhau i fod yn destun pryder. Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, cyfanswm nifer y diwrnodau gwely a gollwyd oherwydd oedi cyn rhyddhau oedd 50,668 gyda chost blwyddyn lawn yn cyfateb i £27.637 miliwn.

43 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cael llwyddiant sylweddol yn fwy diweddar o ran atal oedi wrth ryddhau cleifion rhag effeithio ar lif cleifion o fewn ei system gofal brys ac mewn argyfwng. Mae ei berfformiad o ran metrigau ar gyfer amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a throsglwyddiadau ambiwlans wedi bod naill ai'r gorau yng Nghymru yn gyson neu'n llawer uwch na pherfformiad cyfartalog Cymru gyfan. Mae'r rhain wedi cyfrannu at ostyngiadau sylweddol yn nifer yr oriau ambiwlans brys a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo. Fodd bynnag, mae data’n dangos y gallai’r ymrwymiad i leddfu’r pwysau ar rai agweddau ar wasanaethau brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru fod yn cyfrannu at broblemau llif cleifion mewn mannau eraill o’r ysbyty. Er enghraifft, mae data’n dangos bod mynediad i welyau ar wardiau arbenigol, megis strôc, yn anghyson[3] a bod mwy o apwyntiadau gofal wedi’u trefnu (wedi’u cynllunio) yn cael eu canslo oherwydd y diffyg gwelyau sydd ar gael yn yr ysbyty.

[3] Rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2023, roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gyfnewidiol gyda chanran y cleifion strôc â mynediad uniongyrchol i ward strôc o fewn pedair awr yn amrywio rhwng isafbwynt o 3.3% ac uchafbwynt o 54%. Ers mis Ebrill 2023, mae perfformiad wedi gwella, gyda pherfformiad yn amrywio rhwng uchafbwynt o 72.5% ym mis Mehefin 2023, ac isafbwynt o 43.5% ym mis Ebrill 2024.

44 Mae sawl ffactor yn cyfrannu at oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae gan y rhanbarth boblogaeth sy'n heneiddio gyda chynnydd cydberthynol yn y bobl sy'n byw gyda chyflyrau cymhleth, hirdymor gan gynnwys problemau iechyd meddwl. Mae heriau gweithlu hefyd o fewn y sector gofal cymdeithasol, sy'n arwain at oedi wrth ddyrannu gweithwyr cymdeithasol a chwblhau asesiadau gofal cymdeithasol. Nododd fy ngwaith hefyd wendidau yn yr ymarfer a dogfennaeth cynllunio rhyddhau ac angen i gynnwys y model Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) ym mholisïau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'r rhanbarth yn llwyddo i ateb y galw am gymorth gofal, a gall ddarparu gofal yn unol â'i ymrwymiad i ddarparu gofal cartref dros ddarpariaeth cartrefi gofal. Dyma rywbeth y mae llawer o ranbarthau eraill yng Nghymru yn ei chael yn heriol.

45 Mae gwella llif cleifion yn nodwedd allweddol o gynlluniau ar draws y partneriaid sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae partneriaid yn cydweithio'n effeithiol, yn strategol ac yn weithredol, i wella llif cleifion. Mae adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio i wella cynlluniau rhyddhau cleifion gyda thystiolaeth o werthusiad o effaith prosiectau a mentrau. Er bod perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd o fewn sefydliadau unigol, nid oes gan bartneriaid drefniadau i oruchwylio llif cleifion ar draws y system iechyd a gofal i gyd. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i archwilio datrysiadau system gyfan, ymgorffori dysgu a chanolbwyntio ar effaith gweithgaredd o fewn adroddiadau perfformiad a chynnydd.

## Cynllunio ar gyfer rhyddhau: diweddariad ar gynnydd

46 Wrth gynnal fy adolygiad rhanbarthol o drefniadau i gefnogi llif cleifion, rwyf hefyd wedi achub ar y cyfle i ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol yn 2017 yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion.

47 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd, gan gynnwys sicrhau bod y polisi rhyddhau yn gyfredol a bod hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn arwain at ddealltwriaeth well o dirwedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol.

48 Yn benodol, canfu fy ngwaith fod:

- y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno mecanweithiau i fonitro'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol ac wedi cymryd camau i wella dealltwriaeth staff o dirwedd gwasanaethau, er nad yw'n glir a yw'r camau hyn yn cael yr effaith a fwriedir;
- er bod y Polisi Rhyddhau Cleifion wedi'i ddiwygio yn 2020, nid yw'n glir pa effaith a gafodd cynnwys cleifion a gofalwyr ar newidiadau, gan nodi hefyd ei bod yn hen bryd adolygu'r polisi ymhellach a bod angen sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'r polisi ar wefan y Bwrdd Iechyd; ac

- er bod y Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant rheolaidd yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion, ychydig o dystiolaeth a welsom ei fod yn monitro cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant.

## Adolygu trefniadau arbed costau

49 Archwiliodd fy adolygiad a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o nodi, darparu a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau. Ystyriodd yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn 2023-24 y Bwrdd Iechyd ac amlygodd lle y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

50 Canfu fy ngwaith, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged diffyg y cytunwyd arno ar gyfer 2023-24, mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull cyffredinol o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd, a sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaethau yn cyd-fynd â chynlluniau ehangach i ddychwelyd y sefydliad i gynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol.

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i ysgogwyr costau ac mae ganddo broses glir ar waith ar gyfer nodi cyfleoedd i arbed costau. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r ffordd y mae'n defnyddio data a gwybodaeth i nodi cyfleoedd arbed cynaliadwy a sicrhau bod ei gynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau wedi'u datblygu'n ddigon da i gefnogi ei gynlluniau ehangach ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd ariannol.

52 Mae targed arbedion y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn edrych yn hynod heriol yng nghyd-destun ei hanes gwael diweddar o gyflawni arbedion rheolaidd. Er mwyn cyflawni ei darged arbedion ar gyfer 2024-25, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i gryfhau trefniadau atebolrwydd, gosod targedau realistig a chyraeddadwy ar gyfer cynlluniau arbed unigol, a gwella sgiliau a chapasiti staff o ran cyflawni cynlluniau arbed.

53 Mae angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar arbedion er mwyn rhoi sicrwydd mwy cadarn i'r Bwrdd ynghylch cyflawni. Yn ogystal, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o reoli risgiau arbedion yn ystod y flwyddyn a chyflwyno dull mwy systematig o ddysgu gwersi o gynllunio a chyflawni arbedion.

## Asesiad strwythuredig

54 Cynhaliwyd fy ngwaith archwilio strwythuredig ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i gyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal â hynny, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth y pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

55 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd, gyda ffocws penodol ar y canlynol: Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol o gynllunio; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Talodd yr archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

56 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn destun proses uwchgyfeirio Lefel 3 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio o dan Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru.

## Dull corfforaethol o gynllunio

57 Gwnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

58 Canfu fy ngwaith fod trefniadau ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio, a chraffu ar strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn parhau i gryfhau, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i weithredu ac ymgorffori ei amcanion strategol newydd.

59 Mae trefniadau cynllunio corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn canolbwyntio ar roi ei strategaeth hirdymor ar waith, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023, drwy ddatblygu prosesau a systemau i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni ac alinio trefniadau llywodraethu ehangach. Mae cynlluniau corfforaethol eraill, fel Cynllun Blynyddol 2024-25, wedi'u halinio'n briodol â strategaeth hirdymor y sefydliad ac yn cefnogi'r gwaith o'i chyflawni.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gael trefniadau da ar gyfer cynnal goruchwyliaeth y Bwrdd o strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol. Mae Cynllun Blynyddol 2024-25 yn cynnwys cynllun cyflawni clir, wedi'i ategu gan drefniadau adrodd newydd; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

61 Ystyriodd fy ngwaith a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Rhoddais sylw arbennig i'r canlynol:

- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- Trefniadau i gefnogi cynnal busnes y Bwrdd
- Strwythur y Bwrdd a phwyllgorau, busnes, cyfarfodydd, a llifau sicrwydd
- Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau, profiad, cydlyniant ac ymrwymiad y Bwrdd i welliant

62 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd a’i bwyllgorau yn parhau i gynnal eu busnes yn dryloyw, yn gweithredu’n effeithiol, ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliant parhaus. Mae cyfleoedd i wella rhai agweddau ar lywodraethu gweinyddol ac i wella'r hyn a ddysgir o ymweliadau diogelwch cleifion ac adolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd.

63 Mae’r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes yn dryloyw, ac mae wedi gwella ei drefniadau ymhellach eleni drwy ffrydio’n fyw a chofnodi ei gyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, erys cyfleoedd i wella rhai agweddau ar lywodraethu gweinyddol sy’n ymwneud â diweddaru dogfennau ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau’r Bwrdd Iechyd yn parhau i gefnogi’r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol, ac mae wedi cymryd camau cadarnhaol i wella ei broses rheoli polisïau i fynd i’r afael â’r ôl-groniad o bolisïau sydd wedi dyddio.

64 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod ei strwythur pwyllgorau yn cyd-fynd yn glir â’i amcanion strategol, ei bortffolios newid strategol, a’i risgiau strategol. Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Bwrdd ddiwygiadau i’w drefniadau pwyllgor i egluro’r cyfrifoldebau goruchwylio ar gyfer pob amcan strategol, a’r meysydd busnes hynny nad ydynt yn amlwg yn dod o fewn cylch gwaith unrhyw un o’r pwyllgorau presennol. Mae cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol a chânt eu hategu gan bapurau amserol o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar faterion allweddol.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i glywed gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff ac mae'n gwella ei brosesau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae lle i wella'r ffordd y caiff dysgu ei rannu yn dilyn ymweliadau diogelwch cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli newidiadau i aelodau’r Bwrdd ac effaith swyddi gwag Aelodau Annibynnol yn dda. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd yn cynnal ffocws da ar ddysgu a datblygu parhaus, mae cyfleoedd ar gael i ddeall yn well effaith gweithgareddau sydd â'r nod o wella effeithiolrwydd y Bwrdd.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

66 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau’r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; ac
- argymhellion olrhain.

67 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol. Mae cyfleoedd i egluro trefniadau goruchwylio ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol ac i ddiweddaru'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.

68 Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i wella ei drefniadau rheoli risg strategol a chorfforaethol, mae cyfleoedd ar gael i egluro trefniadau uwchgyfeirio risg a chraffu ar risgiau corfforaethol. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal trosolwg da o berfformiad sefydliadol, a chymerir camau i wella'r Adroddiad

Perfformiad Integredig ymhellach. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.

69 Mae'r Bwrdd yn cynnal trosolwg priodol o ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn dangos ymrwymiad i wella. Fodd bynnag, bu oedi wrth sefydlu'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol, sy'n un o dri is-grŵp a gymeradwywyd fel rhan o Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf 2021-26. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd trefniadau ar gyfer dysgu sefydliadol yn cael eu datblygu drwy'r rhaglen Llunio ein Rhagoriaeth Ansawdd i'r Dyfodol a dod yn rhan o system rheoli ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i gryfhau ei drefniadau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu ymhellach.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

70 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

71 Canfu fy ngwaith, er bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal prosesau clir ar gyfer cynllunio, rheoli a monitro ariannol, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â gorwariant a chryfhau ei ddull o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau cynaliadwyedd ariannol.

72 Er i'r Bwrdd Iechyd gyrraedd ei darged diffyg y cytunwyd arno ar gyfer 2023-24, ni chyflawnodd ei ddyletswyddau ariannol statudol yn 2023-24 ac mae'n annhebygol o gyflawni'r dyletswyddau hyn yn 2024-25. O ganlyniad, mae angen iddo fynd i'r afael ar fyrder â gorwariant a nodi digon o gynlluniau arbed addas i gyflawni ei uchelgais i gyflawni cynaliadwyedd ariannol erbyn diwedd 2025-26. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull da o gynllunio ariannol, ond mae angen iddo gryfhau ei ddull o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

73 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei ddull o oruchwylio a chraffu ar reoli a rheolaethau ariannol. Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal trefniadau cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar berfformiad ariannol, mae lle i gryfhau'r archwiliadau dwfn a dderbynnir gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ac adrodd ar arbedion ariannol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2024.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Bwrdd Iechyd: Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon | Gorffennaf 2024 |
| Bwrdd Iechyd: barn ar y cyfrifon | Gorffennaf 2024 |
| Bwrdd Iechyd: Adroddiad Adendwm Archwilio Cyfrifon | Awst 2024 |
| Cronfeydd Elusennol: Adroddiad Cyfrifon Archwilio (2022-23); a'r farn ar y cyfrifon | Ionawr 2024 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol Gofal Sylfaenol | Ebrill 2024 |
| Gofal Heb ei Drefnu: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Caerdydd a'r Fro | Medi 2024 |
| Cynllunio ar gyfer Rhyddhau: Diweddariad Cynnydd | Medi 2024 |
| Adolygu Trefniadau Arbed Costau | Medi 2024 |

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Hydref 2024 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Mai 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| **Adroddiad** | **Dyddiad cwblhau tybiedig** |
|---|---|
| Gofal brys ac mewn argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw | Ebrill 2025 |
| Adolygiad o Adfer Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio | Ebrill 2025 |
| Adolygiad o Wasanaethau Gofal Llygaid | Mehefin 2025 |
| Adolygiad o Drawsnewid Digidol | Gorffennaf 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Mae fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi amcangyfrif o’r ffi o £465,673 (ac eithrio TAW, na ellir ei godi). Gosodais hefyd amcangyfrif ffioedd o £25,306 yng Nghynllun Archwilio 2024 ar gyfer fy archwiliad o adroddiad blynyddol a chyfrifon elusen y Bwrdd Iechyd. Bydd fy staff yn pennu'r costau archwilio terfynol unwaith y bydd yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau'n llawn. Bydd fy nhîm archwilio wedyn yn hysbysu'r rheolwyr o'r sefyllfa derfynol, a byddaf yn ei nodi fel arfer yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Mae fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi risgiau camddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae’r risg o wrthwneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o’r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Byddaf yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol;<br>• efallai y byddaf yn rhoi gweithdrefnau ychwanegol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o ran gwrthwneud gan reolwyr nad ydynt yn cael sylw gan y gwaith gorfodol uchod. | Adolygais nifer o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a samplau o drafodiadau, a oedd yn cynnwys cofnodion cyfnodolion.<br>Ni nodais unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs busnes arferol.<br>Ni chododd unrhyw risgiau sylweddol yn ymwneud â diystyru rheolwyr.<br>Roedd canlyniadau cyffredinol fy mhrofion yn y meysydd hyn yn foddhaol. |

<table>
<tr><th>Risg archwilio</th><th>Ymateb archwilio arfaethedig</th><th>Gwaith a wnaed a chanlyniad</th></tr>
<tr><td>Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol gyntaf i adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd; yn erbyn ei derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf. Y sefyllfa refeniw a adroddwyd ym mis 12 yw diffyg diwedd blwyddyn o £16.4 miliwn ar gyfer 2023-24, a fyddai’n arwain at ddiffyg o tua £43 miliwn ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024. Y sefyllfa gyfalaf a adroddwyd ym mis 12 yw gwarged diwedd blwyddyn o £72,000 ar gyfer 2023-24, a fyddai’n arwain at warged o £201,000 ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024.<br><br>Mae’r pwysau ariannol presennol yn cynyddu’r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i gyrraedd targedau ariannol allweddol megis y cyfansymiau rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023-24.</td><td>Byddaf yn:<br>• monitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 a'r sefyllfa gronnol o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024;<br>• ystyried effaith gronnol unrhyw gamddatganiadau perthnasol nas cywirwyd dros y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024; a<br>• cynnal profion trobwynt tua diwedd y flwyddyn; a phrofion dosbarthiad ar draws gwariant refeniw a chyfalaf.<br><br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni'r terfyn adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl cymhwyso fy marn rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2023-24. Byddwn hefyd yn disgwyl rhoi adroddiad sylweddol ar y datganiadau i esbonio sail y cymhwyster a'r amgylchiadau yr oedd wedi codi oddi tano.</td><td>Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei derfyn adnoddau cyfalaf tair blynedd, ond na chyflawnodd ei derfyn adnoddau refeniw tair blynedd. Felly, amodais fy marn ar reoleidd-dra a gosodais adroddiad o sylwedd ar y datganiadau i esbonio sail yr amod a'r amgylchiadau yr oedd wedi codi oddi tano.<br><br>Nodais hefyd y ffaith nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy Llywodraeth Cymru ar waith ar gyfer y cyfnod 2023-24 i 2025-26.</td></tr>
</table>

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.